# Gofalu am geffylau sy’n cael eu hadsefydlu

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sy'n gofalu am geffylau sy'n cael eu hadsefydlu.

Dylech fod yn gallu nodi a monitro cynnydd iechyd a llesiant ceffyl, a chynorthwyo gweithwyr gofal iechyd gyda'u gwaith. Dylech allu gweithio gyda cheffylau sydd yn byw ar eu pen eu hunain a'r rheiny sydd mewn grwpiau.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. gofalu am geffylau sy'n cael eu hadsefydlu trwy sefydlu'r ceffyl yn ei lety
3. paratoi dognau porthiant yn unol â'r cyfarwyddiadau
4. paratoi porthiant mewn ffordd sydd yn addas ar gyfer cyflwr ac ymddygiad y ceffyl
5. nodi a hysbysu ynghylch unrhyw batrymau neu anawsterau ymddygiadol
6. monitro pwysau ceffylau fel un arwydd o gynnydd tuag at iechyd gwell
7. darparu ymarfer ar gyfer ceffylau yn unol â'r cynllun adsefydlu
8. monitro cynnydd iechyd a llesiant y ceffyl yn unol â'r cynllun adsefydlu
9. cynnal lefelau hylendid a bioddiogelwch addas
10. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. ymddygiad ceffylau sy'n byw ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau a sut y gallai hyn effeithio ar eu gofal
3. gofynion deietegol sylfaenol ceffylau sydd o dan bwysau a'r rheiny sydd dros bwysau
4. y cyfundrefnau ymarfer corff posibl ar gyfer ceffylau sy'n cael eu hadsefydlu a goblygiadau iechyd a diogelwch y rhain
5. gofynion stabl a/neu gae bychan ar gyfer cyflyrau penodol
6. y technegau sydd ar gael i leddfu diflastod ac atal straen wrth ymdrin â cheffylau â chyflyrau penodol
7. y technegau ymdrin wrth ymdrin â cheffylau â chyflyrau penodol
8. y problemau'n ymwneud â gorffwys ceffyl mewn bocs
9. anatomeg a ffisioleg sylfaenol ceffylau, yn cynnwys y systemau traul ac ysgerbydol
10. pam y mae'n bwysig dilyn cynllun adsefydlu a phwysigrwydd rhoi adborth ar gynnydd
11. problemau moesegol wrth benderfynu ar ewthanasia
12. pwysigrwydd cynnal hylendid a bioddiogelwch wrth adsefydlu ceffyl
13. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
14. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Gofalu am a monitro'r ceffylau canlynol:

- y rheiny ag iechyd cyffredinol da
- y rheiny ag iechyd gwael

Darparu dognau porthiant i'r ceffylau canlynol:

- y rheiny sydd o dan bwysau
- y rheiny sydd dros bwysau

Sefydlu'r ceffylau canlynol yn eu llety:

- ceffylau sydd yn byw ar eu pen eu hunain
- ceffylau sydd yn byw mewn grwpiau

## Geirfa

Cyfundrefnau ymarfer corff:

- tywys
- marchogaeth
- cerdded ceffyl
- mewn llaw
- nofio
- arwynebeddau gwahanol
- pori

Gofalu am geffylau sy'n cael eu hadsefydlu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq233 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; adsefydlu; iechyd a lles anifeiliaid |